Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | **17.10.25** |
| **Pwnc / Subject:** | **Ymateb ynghylch yr Adolygiad o Ddyletswydd Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

### Cyflwyniad

Mae Estyn yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i'r arweiniad statudol ar gyfer awdurdodau lleol ar ddyletswydd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP). Mae'r ddogfen ymgynghori yn cydnabod y rôl hanfodol y mae gofal plant hygyrch o ansawdd uchel yn ei chwarae o ran cefnogi lles, datblygiad a dysgu plant, wrth alluogi rhieni a gofalwyr i fanteisio ar addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae Estyn yn cefnogi'r uchelgais ehangach y dylai awdurdodau lleol fabwysiadu dull strategol, cynhwysol, yn seiliedig ar dystiolaeth, i gynllunio digonolrwydd gofal plant.

Mae'r cynigion yn cyd-fynd yn gadarnhaol â chylch gwaith statudol Estyn o ran:

- Sicrhau bod darpariaeth yn bodloni anghenion dysgwyr
- Codi a chynnal safonau uchel
- Sicrhau gwerth am arian trwy arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol

Mae'r arweiniad diwygiedig yn darparu disgwyliadau cliriach ar gyfer sut dylai awdurdodau lleol ymgysylltu â phartneriaid, dadansoddi galw a chyflenwad, ac ystyried anghenion penodol plant ag anghenion dysgu ychwanegol, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chymunedau gwledig.

Mae Estyn yn nodi'r pwyslais gwell ar fynediad cynhwysol, yr ystyriaeth o ffactorau economaidd-gymdeithasol a'r angen i sicrhau digon o ddarpariaeth sy'n cefnogi datblygiad plentyndod cynnar, yn enwedig lle mae addysg gynnar a ariennir yn cael ei darparu trwy feithrinfeydd nas cynhelir neu leoliadau gofal plant hybrid.

Er bod Estyn yn gefnogol, ar y cyfan, bydd effeithiolrwydd yr arweiniad yn dibynnu ar weithredu cadarn, digon o gapasiti lleol ac aliniad clir rhwng cyfrifoldebau ADGPau a chynllunio ehangach ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar. Bydd yn bwysig defnyddio data o ansawdd uchel, gan gynnwys adborth gan blant a theuluoedd, i lywio cynllunio strategol a phenderfyniadau comisiynu.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad sydd wedi'i bwriadu'n bennaf ar gyfer ymarferwyr a'r rhai sy'n llunio polisïau

**C 1: A fydd y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (yn Atodiad B) yn helpu i leihau'r baich ac yn darparu gwybodaeth ystyrlon ac amserol er mwyn galluogi Awdurdodau Lleol i asesu a rheoli digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal?**

**Byddant**

**Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

Mae Estyn yn croesawu'r gwelliannau arfaethedig i Reoliadau'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) a amlinellir yn Atodiad B i'r ddogfen ymgynghori. Mae'r cynigion yn darparu fframwaith mwy eglur a hyblyg i gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau statudol i asesu a rheoli darpariaeth gofal plant. Rydym o'r farn bod y newidiadau arfaethedig yn taro cydbwysedd priodol rhwng lleihau'r baich gweinyddol a sicrhau ansawdd a pherthnasedd y wybodaeth a ddefnyddir i lywio cynllunio strategol.

Mae'r cynigion yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau ein hunain yn ymwneud ag ansawdd addysg, lles dysgwyr a rheoli adnoddau'n effeithiol.

**C 2: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gynnal cylch o bum mlynedd ar gyfer yr ADGP, gyda chynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd blynyddol?**

**Ydw**

**Os gwnaethoch ateb 'ydw', beth yw'r rhesymau dros eich ateb. Os gwnaethoch ateb 'nac ydw', beth fyddai'n well gennych?**

Rydym yn cytuno â'r cynnig i gynnal cylch statudol o bum mlynedd ar gyfer yr ADGP, wedi'i ategu gan gynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd blynyddol. Bydd yr amserlen hon yn galluogi awdurdodau lleol i gynnal asesiadau manwl, wedi'u seilio ar dystiolaeth, wrth gynnal yr hyblygrwydd i ymateb i newidiadau sy'n dod i'r amlwg o ran galw neu amgylchiadau.

Nodwn y bydd y strwythur arfaethedig yn hybu tryloywder, atebolrwydd ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau cynllunio lleol ehangach, gan gynnwys addysg gynnar, anghenion dysgu ychwanegol (ADY), darpariaeth cyfrwng Cymraeg a mynediad gwledig.

**C 3: A yw'r Rheoliadau yn caniatáu cysondeb digonol rhwng yr ADGP a phrosesau cynllunio eraill megis Cynlluniau Llesiant Lleol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg?**

**Ydyn**

**Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

Mae Estyn yn cydnabod bod Rheoliadau'r ADGP arfaethedig yn darparu sail gadarn i gyd-fynd â dyletswyddau cynllunio strategol eraill, gan gynnwys Cynlluniau Llesiant Lleol, Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau). Mae'r dull integredig hwn yn cefnogi mwy o gydlyniant ar draws gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar, addysg, datblygu iaith a gwasanaethau llesiant.

Mae Estyn yn croesawu'r pwyslais ar gydweithio, a fydd yn helpu i leihau dyblygu ac yn cryfhau gallu awdurdodau lleol i gynllunio'n gyfannol ar gyfer anghenion plant. Yn benodol, bydd cyd-fynd â CSCAau yn sicrhau bod digonolrwydd gofal plant yn cyfrannu at dwf addysg cyfrwng Cymraeg i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru, tra bydd cydlynu ag Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chynlluniau llesiant yn gwella mynediad, cynhwysiant a deilliannau datblygiadol. Rydym yn dechrau gweld rhywfaint o dystiolaeth gynnar yn ein harolygiadau o drefniadau trochi yn y Gymraeg o'r effaith gadarnhaol y gall sicrhau gofal plant cyfrwng Cymraeg priodol mewn lleoliadau strategol ei chael i helpu i gefnogi'r niferoedd sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg.

**C 4: A ydych yn credu y bydd cyflwyno cyfarfodydd monitro blynyddol gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chynllunio camau gweithredu ADGPau Awdurdodau Lleol, a gaiff eu cynnwys fel rhan o'r Canllawiau Statudol (yn Atodiad A), yn ddefnyddiol er mwyn monitro cynnydd ar gamau gweithredu a gymerwyd i sicrhau digonolrwydd a'r heriau sy'n effeithio ar y farchnad gofal plant?**

**Ydw**

**Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

Mae Estyn yn cytuno y bydd cyflwyno cyfarfodydd monitro blynyddol â Llywodraeth Cymru o ran cynllunio camau gweithredu ADGPau awdurdodau lleol yn ddull gwerthfawr o fonitro cynnydd a mynd i'r afael â heriau wrth gyflawni digonolrwydd gofal plant. Nodwn y bydd y cyfarfodydd yn cynnig cyfle strwythuredig i awdurdodau lleol adolygu gweithrediad eu cynlluniau gweithredu ar gyfer yr ADGP, trafod rhwystrau a rhannu arfer dda ar draws rhanbarthau. Byddant hefyd yn cynnig dealltwriaeth well i Lywodraeth Cymru o'r pwysau sy'n effeithio ar y sector gofal plant, fel gallu'r gweithlu, fforddiadwyedd a darpariaeth ar gyfer plant ag ADY.

At ei gilydd, mae Estyn o'r farn bod hwn yn gam cadarnhaol tuag at sicrhau cysondeb ac effaith ledled Cymru.

**C 5: Sut gall gwybodaeth leol gael ei hymgorffori'n well ym mhroses yr ADGP er mwyn ei wneud yn fwy ystyrlon a chadarn?**

Nodwn fod Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ADGPau) o ansawdd uchel yn dibynnu ar gynnwys gwybodaeth a dealllusrwydd lleol mewn modd ystyrlon. Gwerthfawrogwn fod awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i ddeall yr anghenion, y dewisiadau a'r rhwystrau penodol y mae teuluoedd yn eu cymunedau yn eu hwynebu, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag iaith, incwm, cyflogaeth, trafnidiaeth ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae Estyn yn cefnogi'n llwyr y defnydd o ddeallusrwydd ansoddol, a gesglir trwy ymgysylltu'n rheolaidd ac yn bwrpasol â rhieni, gofalwyr, ysgolion a darparwyr eraill, gwasanaethau iechyd a phartneriaid cymunedol. Bydd cynnwys llais y plentyn, lle bo hynny'n briodol yn ddatblygiadol, yn ychwanegu rhagor o werth at y wybodaeth a gesglir.

Cytunwn â defnyddio data lleol presennol o wasanaethau ymgynghori'r blynyddoedd cynnar, timau ADY, Dechrau'n Deg a deilliannau arolygu. Pan gaiff y deallusrwydd hwn ei driongli â data meintiol, bydd yn cynnig darlun mwy cyflawn o'r galw heb ei fodloni a bylchau lleol.

**C 6: A fydd seilio'r ADGP ar wybodaeth o ystod eang o ffynonellau a gan ddefnyddio mesurau procsi yn helpu i ddarparu asesiad mwy cadarn? (Dangosyddion anuniongyrchol yw mesurau procsi y gellir eu defnyddio i asesu nodwedd y mae'n anodd ei mesur yn uniongyrchol)**

**Bydd**

**Beth yw'r rhesymau dros eich ateb? Os gwnaethoch ateb 'na fydd', beth rydych yn ei gynnig?**

Mae Estyn yn cytuno bod manteisio ar ystod eang o ffynonellau tystiolaeth, gan gynnwys mesurau procsi, yn cyfrannu at Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) mwy cadarn ac ystyrlon.

Nodwn, o ystyried cymhlethdod asesu digonolrwydd, fod dangosyddion procsi yn cynnig mewnwelediadau gwerthfawr lle gall data uniongyrchol fod yn gyfyngedig. Rydym yn cefnogi'r defnydd o ddangosyddion fel cyfraddau geni, data datblygu tai, derbyniadau i ysgolion a phroffiliau economaidd-gymdeithasol i ategu data uniongyrchol gan ddarparwyr a defnyddwyr.

Gall y dull hwn wedi'i driongli gryfhau dilysrwydd yr ADGP, gan alluogi awdurdodau lleol i nodi'n well y pwysau sy'n dod i'r amlwg, bylchau mewn darpariaeth a rhwystrau mynediad ar gyfer gwahanol grwpiau, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu'r rhai sydd mewn lleoliadau gwledig a lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

**C 7: Pa ddiffiniadau perthnasol y gellid eu gwella a/neu pa dempledi y gellid eu cynnwys yn y Canllawiau Statudol (yn Atodiad A) er mwyn helpu i sicrhau cysondeb wrth ddehongli a dadansoddi data?**

Mae Estyn yn cefnogi cynnwys templedi cenedlaethol ar gyfer casglu data, adroddiadau ac arolygon rhieni i sicrhau bod awdurdodau lleol yn casglu gwybodaeth gymaradwy a lleihau dyblygu. Awgrymwn y byddai arweiniad gwell ar gynnwys darpariaeth gofal plant heb ei chofrestru a sut i gyfrif am drefniadau gofal anffurfiol yn darparu darlun mwy cyflawn o'r defnydd gwirioneddol o ofal plant.

**C 8: A yw'r gwasanaethau gofal plant a gaiff eu cofnodi yn erbyn y mathau o ofal plant yn Atodlen 3 o'r Canllawiau Statudol cyfredol (yn Atodiad A) yn adlewyrchu'r ffordd y caiff gwasanaethau eu dehongli yn y tirlun presennol?**

**Ydyn**

**Os nad ydyn, beth yw'r rhesymau dros eich ateb a beth rydych yn ei gynnig?**

Mae Estyn yn cydnabod, er bod y mathau o ofal plant sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 3 o'r Canllawiau Statudol (Atodiad A) yn darparu llinell sylfaen ddefnyddiol ar gyfer casglu data, nad ydynt yn adlewyrchu'n llawn amrywiaeth a chymhlethdod gwasanaethau gofal plant sy'n gweithredu yn y tirlun presennol. Yn gynyddol, mae darparwyr yn cynnig modelau cyfunol neu hybrid sy'n cyfuno addysg gynnar â gofal plant estynedig, yn aml ar draws nifer o ffrydiau ariannu a chategorïau cofrestru. Mae'r

trefniadau hyblyg hyn yn arbennig o gyffredin mewn lleoliadau nas cynhelir ac mewn ardaloedd gwledig.

Nodwn hefyd nad yw rhai diffiniadau presennol yn ystyried gofal cofleidiol, darpariaeth gwyliau neu wasanaethau sy'n gweithredu y tu allan i oriau confensiynol, sy'n hanfodol ar gyfer llawer o deuluoedd sy'n gweithio.

Er mwyn cefnogi mwy o gywirdeb a chysondeb mewn adroddiadau ar ADGPau, byddai Estyn yn croesawu diffiniadau mwy eglur a chyfredol o fathau o ofal plant. Byddai hyn yn cryfhau dibynadwyedd data ac yn sicrhau bod asesiadau digonolrwydd yn cyfleu'n fwy cywir yr ystod lawn o ddarpariaeth y mae teuluoedd ledled Cymru yn eu defnyddio.

**C 9: A yw'r arolygon sydd wedi'u cynnwys yn Atodlenni 4, 5 a 6 o'r Canllawiau Statudol cyfredol (yn Atodiad A) yn addas at y diben yn eich barn chi?**

**Nac ydyn**

**Os nad ydyn, beth yw'r rhesymau dros eich ateb a beth rydych yn ei gynnig?**

Mae Estyn yn cydnabod bod yr arolygon sydd wedi'u cynnwys yn Atodlenni 4 (rhieni/gofalwyr), 5 (darparwyr gofal plant) a 6 (cyflogwyr) yn darparu man cychwyn defnyddiol i gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid. Fodd bynnag, mae Estyn o'r farn y byddai'r rhain yn elwa ar gael eu hadolygu a'u mireinio er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben yn y cyd-destun cyfredol. Yn benodol, gallai arolygon gael eu cryfhau trwy gynnwys cwestiynau manylach ynghylch rhwystrau rhag mynediad, gan gynnwys i deuluoedd a phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), y rhai y mae angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog arnynt a'r rhai y mae angen oriau annodweddiadol neu hyblyg arnynt.

Mae Estyn yn cytuno â'r cynnig i gynnwys mwy o awgrymiadau penagored i gasglu gwybodaeth ansoddol gyfoethocach. Rydym hefyd yn cytuno â gwneud addasiadau a fydd yn sicrhau hygyrchedd i ystod ehangach o ymatebwyr, gan gynnwys y rhai sydd â medrau llythrennedd isel neu nad ydynt yn gallu manteisio ar dechnolegau digidol. Gyda'i gilydd, bydd hyn yn ategu cynllunio digonolrwydd gofal plant mwy cynhwysol ac ymatebol.

**C 10: Pa arolygon neu ddulliau ychwanegol y byddech yn eu hargymell i helpu Awdurdodau Lleol i gasglu data er mwyn asesu'r galw am ofal plant yn fwy effeithiol?**

Gallai awdurdodau lleol ystyried ategu arolygon presennol â dulliau ymgysylltu wedi'u targedu, fel grwpiau ffocws â theuluoedd nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, gan gynnwys y rhai sydd â phlant ag ADY, teuluoedd Cymraeg eu hiaith a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

Mae Estyn yn cytuno â defnyddio cyfweliadau ymadael â theuluoedd sy'n gadael lleoliadau gofal plant ac arolygon digidol hygyrch, byr sy'n cael eu rhannu trwy ysgolion, ymwelwyr iechyd a hybiau cymunedol. Bydd gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, Dechrau'n Deg a rhwydweithiau rhieni yn gwella ehangder y wybodaeth a gesglir.

**C 11: A oes gwelliannau pellach y gellid eu gwneud yn eich barn chi i leihau'r baich gweinyddol a'r adnoddau sydd eu hangen i goladu data a gwybodaeth er mwyn asesu'r cyflenwad gofal plant a'r galw amdano?**

Mae Estyn yn tynnu sylw at y cyfleoedd canlynol i leihau'r baich gweinyddol a'r adnoddau sydd eu hangen i goladu data ar gyfer asesiadau digonolrwydd gofal plant:

- mwy o ddefnydd o blatfformau digidol ac ystafelloedd gwaith rhithwir a rennir, lle gall nifer o gyfranogwyr, er enghraifft staff yr ALl a rhanddeiliaid perthnasol, weld, rhannu a chydweithio ar ddeunyddiau cysylltiedig mewn amser real, gan y gallai un pwynt mynediad osgoi dyblygu.
- templedi hunanwerthuso symlach a safonol ar gyfer darparwyr i hwyluso casglu data ymhellach.
- mae'n bosibl y gallai cydweithio gwell rhwng awdurdodau lleol, ymarferwyr a chyrff arolygu leihau ceisiadau mynychu am yr un wybodaeth.

**C 12: A fyddai cyflwyno dull mwy safonedig o goladu a chofnodi gwybodaeth (er enghraifft, drwy dempledi) yn ddefnyddiol i Awdurdodau Lleol wrth ymgymryd â phroses yr ADGP yn eich barn chi?**

**Byddai**

**Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

Mae Estyn yn cefnogi cyflwyno dull mwy safonol o gasglu ac adrodd ar wybodaeth ar gyfer proses yr ADGP. Yn aml, mae'r trefniadau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gasglu a chyflwyno data mewn fformatau amrywiol, gan greu dyblygu a llwyth gwaith ychwanegol.

**C 13: A ydych yn cytuno bod y diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (yn Atodiad B) yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ddigonol?**

**Ydw**

**Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

Mae Estyn yn cytuno bod y diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (Atodiad B) yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn cylchoedd blaenorol o'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) yn ddigonol.

Mae Estyn yn nodi bod y newidiadau'n cynnig fframwaith mwy hyblyg a chymesur, yn egluro gofynion data ac yn hybu cyd-fynd â dyletswyddau cynllunio ehangach. Mae hefyd yn cefnogi monitro gwella, blaenoriaethu cynhwysiant ac yn annog defnydd gwell o ffynonellau data presennol.

**C 14: A ydych yn cytuno bod y manylion isod yn darparu digon o eglurder o ran y gwasanaethau a gaiff eu cofnodi mewn perthynas â'r Atodlen 'Materion i'w cynnwys yn yr asesiad', sef atodlen 2(i) o'r Rheoliadau diwygiedig arfaethedig (yn Atodiad B) (y bwriad yw cynnwys hyn yn y Canllawiau Statudol)?:**

**-oriau annodweddiadol;**

**-gofal amser llawn a rhan-amser;**

**-diwrnod llawn;**

**-AM/PM;**

**-cofleidiol (am/pm/cinio);**

**-gwyliau; ac**

**-yn ystod y tymor.**

**Ydw**

**Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

Mae Estyn yn cytuno bod y rhestr arfaethedig dan Atodlen 2(i) yn cynnig fframwaith defnyddiol ar gyfer cofnodi'r ystod o wasanaethau gofal plant. Mae'n adlewyrchu'r modelau cyflwyno allweddol yn y tirlun presennol, yn enwedig ar gyfer teuluoedd y mae angen hyblygrwydd arnynt, fel y rhai sy'n defnyddio gofal cofleidiol neu ofal gwyliau. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol darparu diffiniadau neu enghreifftiau clir ar gyfer pob categori (e.e. yr hyn sy'n cyfrif fel "oriau annodweddiadol" neu "gofal cofleidiol") er mwyn sicrhau dehongliad cyson ar draws awdurdodau lleol.

**C 15: O dan yr Atodlen 'Materion i'w cynnwys yn yr asesiad' 2(l) (yn Atodiad B), a yw'r ffactorau canlynol yn darparu digon o eglurder o ran yr wybodaeth y dylai Awdurdodau Lleol ei hystyried mewn perthynas â galw (y bwriad yw cynnwys hyn yn y Canllawiau Statudol):**

**-dewisiadau rhieni o ran y math o wasanaeth a'i ystod;**

**-yr adegau pan fydd angen gofal plant;**

**-mynediad at ddarpariaeth sy'n cefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a gofal arbenigol oherwydd anabledd;**

**-mynediad at ofal plant a gymorthdelir gan y wladwriaeth;**

**-nifer y lleoedd gofal plant sydd eu hangen ar gyfer plant hyd at 12 oed, wedi'u dadansoddi yn ôl ystod oedran a math;**

**-gwasanaethau gofal plant Cymraeg sydd eu hangen;**

**-gwasanaethau gofal plant ieithoedd eraill sydd eu hangen; a**

**-mynediad at ddarpariaeth sy'n cynnig elfen costau gofal plant Credyd Treth Gwaith neu elfen costau plant Credyd Cynhwysol.**

**Ydyn**

**Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

Mae Estyn yn cytuno bod y rhestr arfaethedig o ffactorau sy'n ymwneud â galw yn darparu fframwaith clir a defnyddiol i awdurdodau lleol asesu'r galw am ofal plant. Mae'n adlewyrchu ystyriaethau allweddol fel dewisiadau rhieni, oriau hyblyg, anghenion iaith a darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, gellid ystyried sicrhau y byddai'r Canllawiau Statudol yn cynnwys diffiniadau clir ac enghreifftiau ymarferol ar gyfer pob ffactor er mwyn sicrhau cysondeb wrth ddehongli a chasglu data.

Ar ben hynny, gellid annog awdurdodau lleol i gasglu adborth ansoddol i ddeall penderfyniadau rhieni, pryderon ynghylch fforddiadwyedd a rhwystrau diwylliannol neu logistaidd. Gallai'r ychwanegiadau hyn ddarparu asesiad mwy cadarn o'r galw lleol.

**C 16: A oes unrhyw heriau neu rwystrau posibl rydych yn eu rhagweld i Awdurdodau Lleol wrth roi'r Rheoliadau diwygiedig (yn Atodiad B) ar waith?**

**Oes**

**Os gwnaethoch ateb 'oes', beth yw eich awgrymiadau ar gyfer gwella cynnwys neu strwythur y Rheoliadau drafft diwygiedig (yn Atodiad B) er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol?**

Mae Estyn yn rhagweld y gallai awdurdodau lleol wynebu nifer o heriau wrth roi'r Rheoliadau diwygiedig (Atodiad B) ar waith, er y croesewir yr eglurder a'r strwythur gwell y maent yn eu cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngiadau o ran capasiti, yn enwedig lle mae timau'r blynyddoedd cynnar yn fach neu lle mae dyletswyddau'r ADGP wedi'u dosbarthu ar draws adrannau yn yr awdurdod lleol.

Mae Estyn yn nodi y gallai'r angen i gasglu a dehongli ystod ehangach o ddata, gan gynnwys gan nifer o wahanol fathau o randdeiliaid a gwasanaethau, roi pwysau ychwanegol ar adnoddau, yn enwedig lle nad yw systemau digidol wedi'u datblygu'n ddigonol.

Gallai sicrhau dehongliad cyson o'r diffiniadau, yn enwedig ar gyfer modelau gofal plant hybrid neu annhraddodiadol, beri anawsterau hefyd heb ragor o arweiniad. Ar ben hynny, gallai casglu mewnbwn ystyrlon gan grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol, fel teuluoedd â phlant sydd ag ADY neu'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, olygu bod angen strategaethau ymgysylltu wedi'u targedu, sy'n cymryd amser i'w datblygu.

Mae Estyn yn nodi y bydd pwysigrwydd hyfforddiant a chymorth parhaus ar gyfer staff awdurdodau lleol i ymwreiddio'r dull diwygiedig yn effeithiol yn hollbwysig o ran sicrhau cysondeb.

**C 17: A yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft (yn Atodiad C) yn crynhoi canlyniadau posibl y diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (yn Atodiad B)?**

**Ydy**

**Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

Mae Estyn yn cytuno bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft (Atodiad C) yn crynhoi canlyniadau posibl y diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (Atodiad B) yn fras. Mae'n nodi'n briodol y manteision posibl, fel mwy o hyblygrwydd, disgwyliadau cliriach a llai o ddyblygu.

**C 18: A yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft (Atodiad D) yn cwmpasu'r effaith ar blant, teuluoedd, y rhai sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol a phobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn ddigonol yn eich barn chi (gan gynnwys tystiolaeth y dylid ei hystyried yn eich barn chi)? (Y nodweddion gwarchodedig yw: Oedran; Anabledd; Ailbennu rhywedd; Priodas a phartneriaeth sifil; Hil; Crefydd neu gred; Rhyw; a Chyfeiriadedd rhywiol)?**

**Ydy**

**Os gwnaethoch ateb 'nac ydy', a oes newidiadau ychwanegol y gellid eu gwneud i'r rheoliadau er mwyn gwella'r effaith ar blant, teuluoedd, y rhai sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol a phobl sydd â nodweddion gwarchodedig?**

Mae Estyn yn cytuno bod yr Asesiad Effaith Integredig drafft (Atodiad D) yn ddechrau cadarnhaol tuag at gydnabod effaith bosibl y Rheoliadau arfaethedig ar blant, teuluoedd a'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae Estyn yn cydnabod yr angen i wella mynediad a chynhwysiant, yn enwedig i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd ag incwm isel. Fodd bynnag, mae Estyn yn argymell bod yr asesiad yn cynnwys ystyriaeth gryfach o bob un o'r nodweddion gwarchodedig, yn enwedig hil, anabledd ac iaith.

**C 19: Sut gellir llunio neu ddiwygio'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (yn Atodiad B) fel na fyddent yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddent yn cael llai o effeithiau andwyol ar bobl â nodweddion gwarchodedig?**

Mae Estyn o'r farn y gellir cryfhau'r Rheoliadau arfaethedig i leihau'r risg o effeithiau andwyol ar bobl â nodweddion gwarchodedig trwy roi mwy o bwyslais ar gynhwysiant, hygyrchedd a thegwch.

**C 20: A oes unrhyw agweddau ar y Canllawiau Statudol cyfredol (yn Atodiad A) sy'n aneglur ar hyn o bryd yn eich barn chi?**

**Oes**

**Os gwnaethoch ateb 'oes', beth yw'r rhesymau dros eich ateb? Os gwnaethoch ateb 'nac oes', pa ddiwygiadau y gellid eu gwneud er mwyn helpu Awdurdodau Lleol i gynllunio, sicrhau a/neu ddarparu gwasanaethau gofal plant effeithiol a digonol yn well gyda'r nod o ddiwallu anghenion rhieni/gofalwyr yn eu hardaloedd?**

Byddai'r agweddau canlynol ar y Canllawiau Statudol (Atodiad A) yn elwa ar fwy o eglurder i gefnogi gweithrediad cyson ar draws awdurdodau lleol.

- Mae'r diffiniadau o fathau o ddarpariaeth gofal plant, er enghraifft gofal cofleidiol, gofal hybrid a gofal sesiynol yn agored i'w dehongli o hyd ac yn arwain at gyflwyno data anghyson ar draws awdurdodau.

Byddai termau fel "digonolrwydd", "mynediad", "fforddiadwyedd" ac "oriau annodweddiadol" yn elwa ar ddiffiniadau safonol ac enghreifftiau esboniadol.

Nid oes canllawiau clir ar sut i ymgorffori gofal anffurfiol neu anghofrestredig, a sut i gynnwys barn grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn systematig, fel teuluoedd ethnig lleiafrifol neu ofalwyr plant ag ADY. Gellid diwygio templedi'r arolygon a ddarperir yn yr Atodlenni er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn cipio mewnwelediadau ystyrlon.

**C 21: A fyddai canllawiau cliriach ar ddarparwyr anghofrestredig yn gwella prosesau casglu data yn eich barn chi?**

**Byddai**

**Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

Mae Estyn yn nodi y byddai darparu canllawiau cliriach ar ddarparwyr gofal plant anghofrestredig yn gwella ansawdd a chysondeb y data a gesglir trwy broses yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) yn sylweddol. Mae Estyn yn cefnogi cynnwys diffiniadau safonol, awgrymiadau casglu data ac enghreifftiau o adroddiadau yn y Canllawiau Statudol er mwyn helpu awdurdodau i fyfyrio'n well ar ehangder y ddarpariaeth.

**C 22: Pa fathau o ddarpariaeth gofal plant anghofrestredig ddylai gael eu cynnwys yn yr ADGP yn eich barn chi?**

Gellid cynnwys y mathau canlynol o ddarpariaeth gofal plant anghofrestredig yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP):

1. Gofal anffurfiol gan deulu neu ffrindiau (e.e. neiniau a theidiau, cymdogion)

2. Gwarchodwyr plant sy'n gweithredu am lai na dwy awr y dydd (sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru ag AGC)

3. Nanis neu ofalwyr yn y cartref sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan deuluoedd

4. Gofal cofleidiol sy'n cael ei reoli gan ysgolion, nad yw wedi'i gofrestru ar wahân (e.e. clybiau brecwast neu ar ôl ysgol sy'n cael eu rheoli'n fewnol)

5. Cynlluniau chwarae neu glybiau gweithgareddau yn ystod y gwyliau, nad oes angen iddynt gofrestru oherwydd y cyfnodau gweithredu byr

6. Grwpiau cymunedol anghofrestredig sy'n cynnig gofal plant byrdymor neu yn ôl yr angen

7. Darpariaeth sy’n aros i gofrestru ag AGC ond sy’n darparu gofal plant yn weithredol

8. Sesiynau gofal plant sy’n seiliedig ar ffydd neu ddiwylliant, nad ydynt wedi cofrestru oherwydd hyd neu strwythur y sesiwn

9. Gofal plant sy’n cael ei gefnogi gan gyflogwyr, sy’n gweithredu’n anffurfiol ar neu gerllaw’r safle gwaith

10. Trefniadau gofal plant a rennir rhwng teuluoedd (e.e. gofal cydweithredol neu rannu nani)

**C 23: A yw'r Canllawiau Statudol cyfredol (yn Atodiad A) yn caniatáu i ddata gael eu rhannu'n briodol ac yn ddienw yn eich barn chi (h.y. rhannu data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru)?**

**Ydyn**

**Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

Mae Estyn yn cefnogi cyfeiriadau cliriach at drefniadau rhannu data a chyfrifoldebau er mwyn sicrhau y gall awdurdodau lleol ddefnyddio gwybodaeth a gedwir gan AGC yn hyderus ac yn gyfreithlon i lywio eu ADGP.

**C 24: A fydd y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (yn Atodiad B) yn helpu Awdurdodau Lleol i asesu gofal plant digonol ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a/neu anabledd yn eich barn chi?**

**Byddant**

**Os gwnaethoch ateb ‘na fyddant’, beth yw'r rhesymau dros eich ateb a beth rydych yn ei gynnig?**

**C 25: Pa gymorth fyddai'n ddefnyddiol i helpu Awdurdodau Lleol i ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr)?**

Byddai awdurdodau lleol yn elwa ar gymorth a chanllawiau wedi’u targedu i ymgysylltu’n effeithiol â chymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, gan gynnwys grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Gallai hyn gynnwys y gallu i fanteisio ar swyddogion cyswllt diwylliannol a datblygu deunyddiau ymgysylltu wedi’u cyfieithu ac sy’n briodol yn ddiwylliannol.

Byddai hyfforddiant ar gyfathrebu cynhwysol ac arfer wrth-hiliol hefyd yn helpu i feithrin ymddiriedaeth a chael gwared ar rwystrau rhag cyfranogi.

**C 26: Pa wybodaeth neu ddata sydd gan sefydliadau cynrychioliadol gofal plant a allai fod yn ddefnyddiol er mwyn bodloni gofynion Rheoliadol yr ADGP?**

Mae Estyn yn ymwybodol bod sefydliadau cynrychioliadol gofal plant yn cadw data a mewnwelediadau gwerthfawr a all gynorthwyo awdurdodau lleol i fodloni gofynion Rheoliadol yr ADGP. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am dueddiadau'r gweithlu, cyfraddau swyddi gwag, cynaliadwyedd darparwyr a phatrymau darparu gwasanaethau, gan gynnwys oriau hyblyg ac annodweddiadol. Gallant hefyd gynnig gwybodaeth am rwystrau rhag cofrestru, heriau o ran bodloni ADY a mewnwelediadau i'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

**C 27: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Adolygiad o Ddyletswydd Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?**

Mae Estyn o'r farn bod gan yr adolygiad o ddyletswydd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) y potensial i gefnogi effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, yn enwedig trwy wella'r broses o nodi'r galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'r Rheoliadau diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu digonolrwydd darpariaeth Gymraeg, sy'n cefnogi amcanion Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau).

I gefnogi hyn ymhellach, mae Estyn yn argymell canllawiau cliriach ar fesur galw heb ei fodloni, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae diddordeb newydd neu gudd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae Estyn yn nodi pwysigrwydd terminoleg gyson, mapio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gywir a chymorth i ddatblygu'r gweithlu yn y sector. Byddai sicrhau y caiff ystyriaethau'r Gymraeg eu hintegreiddio ar draws pob agwedd ar gynllunio ADGPau yn darparu mynediad cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg, gan sicrhau nad oes yr un iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r llall.

**C 28: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall yr adolygiad arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Mae Estyn o'r farn y gellid cryfhau'r adolygiad arfaethedig trwy ofyn i awdurdodau lleol asesu'r galw presennol a'r galw posibl am ofal plant cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys mewn ardaloedd lle mae darpariaeth bresennol yn gyfyngedig. Byddai ymgorffori disgwyliadau clir ynghylch ymgysylltu â theuluoedd Cymraeg eu hiaith ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gwella cynllunio a mynediad.

Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol, mae Estyn yn nodi y gallai'r canllawiau hybu datblygu'r gweithlu i ehangu capasiti cyfrwng Cymraeg a'i gwneud yn ofynnol i holl brosesau'r ADGP drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, mewn polisi ac arfer.

**C 29: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:**

Mae Estyn yn tynnu sylw at y materion cysylltiedig canlynol i'w hystyried ymhellach:

- Y cysylltiad â deilliannau addysgol: Gallai'r adolygiad gryfhau'r cysylltiad rhwng cynllunio'r ADGP a deilliannau dysgu cynnar yng Nghwricwlwm i Gymru, yn enwedig mewn lleoliadau nas cynhelir.
- Defnyddio tystiolaeth arolygu: Byddai mwy o bwyslais ar ymgorffori canfyddiadau arolygu AGC ac Estyn yn systematig yn gwella asesu ansawdd darpariaeth.
- Pontio i addysg: Mae angen mwy o arweiniad ar sut mae ADGPau yn cefnogi pontio rhwydd a theg o ofal plant i addysg gynnar, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ag ADY neu'r rhai sy'n manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Seilwaith digidol: Byddai cymorth ar gyfer systemau a thempledi digidol cyson yn hwyluso casglu data ac yn lleihau'r llwyth gwaith ar draws awdurdodau lleol.
- Monitro cynhwysiant: Byddai dulliau gwell o olrhain effaith camau gweithredu ADGPau ar grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn cefnogi atebolrwydd a thegwch.